Hysbysiad i gyrff dyfarnu ar gyfer cofnodi data ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol, 2020/21

12 Ionawr 2021

*Mae'r hysbysiad hwn yn diwygio'r rhybudd blaenorol ar 5 Hydref 2020. Yr unig newid yw dyddiad cofnodi yr data am Adolygiad o waith Marcio a Chymedroli ar gyfer cyfres Tachwedd 2020 o 2 Ebrill 2021 i 1 Ebrill 2021. Mae hyn oherwydd bod 2 Ebrill 2021 yn gwyliau banc. Amlygir hyn mewn coch yn yr amserlen adrodd isod.

Hysbysiad i roi gwybodaeth i Cymwysterau Cymru

O dan amod B4 yr Amodau Cydnabod Safonol, gallwn gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i gorff dyfarnu cydnabyddedig sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ddarparu gwybodaeth yr ydym yn ei cheisio er mwyn cyflawni ein swyddogaethau. Rhaid i'r corff dyfarnu gydymffurfio â thelerau'r hysbysiad hwnnw.[1]

Diben y casgliad data hwn

Fel rheoleiddiwr cyrff dyfarnu a chymwysterau yng Nghymru, er mwyn arfer ein swyddogaethau swyddogol o dan adran 46 Deddf Cymwysterau Cymru 2015[2], rydym yn gofyn am ddata dysgwyr gan gyrff dyfarnu a allai adnabod unigolion.

Ein dibenion ar gyfer gofyn am y data yw:

- Cyflawni ein swyddogaethau monitro ac archwilio
- Cyhoeddi ystadegau am y system gymwysterau yng Nghymru
- Cynnal ymchwil ar sail tystiolaeth ar y cymwysterau a'r system gymwysterau
- Ymchwilio i faterion a adroddir i Cymwysterau Cymru

[1] https://qualificationswales.org/cymraeg/ein-gwaith/ein-dogfennau-rheoleiddiol/amodau/
[2] www.legislation.gov.uk/anaw/2015/5/contents/enacted

Mae hyn er mwyn cefnogi ein Prif Nodau:

- Sicrhau bod cymwysterau, a'r system gymwysterau yng Nghymru, yn effeithiol er mwyn diwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru;
- Monitro hyder y cyhoedd mewn cymwysterau a'r system gymwysterau yng Nghymru.

Ni fydd unrhyw ddata sy'n adnabod dysgwyr unigol yn cael ei gyhoeddi. Nid ydym yn gwneud unrhyw benderfyniadau ynghylch unigolion ar sail y data. Mae mesurau diogelu sefydliadol a thechnolegol priodol ar waith i sicrhau diogelwch y data.

Bydd y data'n cael ei gadw am 15 mlynedd er mwyn gallu dadansoddi tueddiadau. Ar ôl y pwynt hwn, bydd fel arfer yn cael ei ddinistrio. Fel ceidwad cofnodion cyhoeddus, mewn rhai achosion, lle caiff setiau data eu harfarnu fel rhai o ddiddordeb hanesyddol, gellir eu cadw a'u trosglwyddo i'r Archifdy Gwladol ar ôl 20 mlynedd.

Efallai y byddwn yn rhannu data gyda thrydydd partïon i wneud gwaith ymchwil a dadansoddi ar ein rhan. Mae'n ofynnol o dan gontract i bob trydydd parti sy'n prosesu data personol ar ein rhan gadw at Reoliad Diogelu Data Cyffredinol yr UE a Deddf Diogelu Data 2018.

Rydym yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau wrth gynhyrchu ystadegau.[3]

Gellir cyhoeddi'r data hwn ar ffurf gyfanredol mewn allbynnau ystadegol sydd ar gyfer defnydd y cyhoedd. Gall y data a gasglwn hefyd gael ei ddefnyddio at ddibenion mewnol gan gynnwys dibenion monitro, penderfyniadau polisi, ymchwil a chyngor. Gellir cyhoeddi data cyfanredol o'r casgliadau hyn, er enghraifft, mewn adroddiadau ymchwil, cyfathrebu â rhanddeiliaid a'n hadroddiad blynyddol. Bydd ein hallbynnau ystadegol yn cael eu cynhyrchu yn unol â'n Polisi Allbynnau Ystadegol[4]. Efallai y gofynnir i ni hefyd ddarparu gwybodaeth neu gyngor i Weinidogion Cymru, ar faterion sy'n ymwneud ag unrhyw un o'n swyddogaethau, fel y nodir yn y cais. Gall ceisiadau o'r fath gynnwys data o'r casgliad presennol.

Er mwyn bodloni'r dibenion hyn, mae'n hanfodol bod yr wybodaeth a ddarparwch i ni yn gywir, o ansawdd uchel ac yn amserol.

Gellir dod o hyd i'n Polisi Preifatrwydd[5] a Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer casglu data dysgwyr[6] ar ein gwefan.

[3] **https://code.statisticsauthority.gov.uk/**
[4] **https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/polisi-allbynnau-ystadegol/**
[5] **https://qualificationswales.org/cymraeg/polisi-preifatrwydd/**
[6] **https://qualificationswales.org/cymraeg/polisi-preifatrwydd/hysbysiad-preifatrwydd---data-dysgwyr/**

Cwmpas y casgliadau data ar gyfer yr hysbysiad hwn

Mae arnom angen data gan gyrff dyfarnu o ran cymwysterau y maent yn eu dyfarnu lle cânt eu hasesu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru. Bydd pob casgliad yn cael ei dargedu at fathau penodol o gymwysterau, mathau penodol o ddata a chyfresi arholiadau penodol. Nodir gofynion pob un o'r casgliadau hyn yn ein Atodlen Adrodd am Gymwysterau 2020/21 isod.

Rydym yn casglu data mewn perthynas â'r mathau canlynol o gymwysterau.

- TGAU, TGAU llinol, TGAU cwrs llawn, TGAU cwrs byr,
- TAG Safon UG a Safon Uwch
- Cymwysterau dysgu ymarferol a chymwysterau prosiect
- Tystysgrifau Lefel 1/Lefel 2
- Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru
- Cymwysterau galwedigaethol a chymwysterau eraill

Rydym yn casglu data mewn perthynas â'r canlynol:

- Apeliadau
- E-Asesu
- Cofrestriadau yn ôl Grŵp Blwyddyn
- Cofrestriadau, Cofrestriadau Hwyr a Dyfarniadau
- Camymddwyn - Canolfannau ac Ymgeiswyr
- Data dyfarnu
- Papurau wedi'u haddasu
- Nifer yr atgyfeiriadau
- Nifer yr ymgeiswyr sy'n sefyll arholiadau
- Marcio ar-lein a thraddodiadol
- Canlyniadau rhagweledig a gwirioneddol - (Cyfnewid Data. Yn gymwys i CBAC yn unig)
- Ardystio a chofrestru chwarterol
- Adolygiad o waith Marcio a Chymedroli
- Adolygiad o waith Marcio a Chymedroli - Newidiadau gradd o ddau neu fwy
- Ystyriaeth arbennig
- Codau Manyleb

At ddibenion yr hysbysiad 2020/21 hwn, mae arnom angen y data hwn yng nghyswllt y cymwysterau hyn mewn perthynas â'r gyfres arholiadau ganlynol. Sylwch na fydd pob un o'r casgliadau uchod yn gymwys i bob un o'r cyfresi isod. Hefyd, er y byddwn yn casglu data ar gyfer cyfres Tachwedd 2020 ar gyfer cymwysterau cyffredinol, ni fyddwn yn casglu data sy'n ymwneud â chyfres arholiadau cymwysterau cyffredinol ychwanegol hydref 2020.

- Mehefin 2020
- Tachwedd 2020

- Ionawr 2021
- Mehefin 2021
- Tachwedd 2021
- 2020 Ch4
- 2021 Ch1
- 2021 Ch2
- 2021 Ch3

Rhaid cyflwyno data gan ddefnyddio'r templedi canlynol:

- Apeliadau
- Data dyfarnu – Cyfnewid ar lefel dysgwr
- Templedi Cyfnewid Data
- DR1
- DR2
- E-Asesu
- Cofrestriadau yn ôl Grŵp Blwyddyn
- Cofrestriadau, Cofrestriadau Hwyr a Dyfarniadau
- Newidiadau mewn marciau neu radd y tu allan i ROMMA
- Camymddwyn
- Papurau wedi'u Haddasu
- Nifer yr ymgeiswyr sy'n sefyll arholiadau
- Marcio Ar-lein a Thraddodiadol
- Atgyfeiriadau
- Ystyriaeth Arbennig
- Codau Manyleb (i'w cyflwyno trwy SharePoint nid QiW)
- Data Chwarterol Cymwysterau Galwedigaethol

Rhaid cyflwyno data yn unol â'r amseroedd a nodir yn ein Hamserlen Cofnodi Cymwysterau isod.

Amserlen Adrodd ar Gymwysterau 2020/21

DS mae rhesi gyda seren yn darparu data ar gyfer ystadegau swyddogol. Mae graddliwio glas yn dangos casgliadau ChG (VQ).

Dyddiad cofnodi	Templed / disgrifiad	Cyfres arholiadau	Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno data	Cyfeirnod y templed	Cymwysterau
08/10/2020	Apeliadau	Meh '20	29/09/2020	Apeliadau	TGAU, Safon UG, Safon Uwch, Tystysgrif Her Sgiliau CBC
29/10/2020	Apeliadau	Meh '20	27/10/2020	Apeliadau	TGAU, Safon UG, Safon Uwch, Tystysgrif Her Sgiliau CBC
30/10/2020	Cofrestriadau yn ôl Grŵp Blwyddyn*	Tach '20	28/10/2020	Cofrestriadau yn ôl Grŵp Blwyddyn	Tystysgrifau TGAU, Lefel 1/Lefel 2
19/11/2020	Apeliadau - Terfynol*	Meh '20	17/11/2020	Apeliadau	TGAU, Safon UG, Safon Uwch, Tystysgrif Her Sgiliau CBC
19/11/2020	Camymddwyn - Canolfannau ac Ymgeiswyr*	Tach '19, Ion '20, Meh '20	17/11/2020	Camymddwyn	TGAU, Safon UG, Safon Uwch, Tystysgrif Her Sgiliau CBC
Rhag 2019	Canlyniadau rhagweledig a gwirioneddol - **Cyfnewid Data**. Yn gymwys i CBAC yn unig.	Tach '20	Tach 20 tan Rag 20	Templedi Cyfnewid Data	Tystysgrifau TGAU a Lefel 1/Lefel 2
05/01/2021	Cofrestriadau, Cofrestriadau Hwyr a Dyfarniadau - Terfynol*	Tach '20	04/01/2021	Cofrestriadau, Cofrestriadau Hwyr a Dyfarniadau	Tystysgrifau TGAU, Prosiect a Lefel 1/Lefel 2
22/01/2021	Data ardystio a chofrestru chwarterol*	Ch4 2020	01/10/2020 tan 31/12/2020	Data Chwarterol Cymwysterau Galwedigaethol	Cymwysterau galwedigaethol

Amserlen Adrodd ar Gymwysterau 2020/21

DS mae rhesi gyda seren yn darparu data ar gyfer ystadegau swyddogol. Mae graddliwio glas yn dangos casgliadau ChG (VQ).

Dyddiad cofnodi	Templed / disgrifiad	Cyfres arholiadau	Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno data	Cyfeirnod y templed	Cymwysterau
02/03/2021	Cofrestriadau, Cofrestriadau Hwyr a Dyfarniadau - Terfynol*	Ion '21	01/03/2021	Cofrestriadau, Cofrestriadau Hwyr a Dyfarniadau	Tystysgrifau TGAU, Prif Ddysgu a Phrosiect a Lefel 1/Lefel 2, Tystysgrif Her Sgiliau CBC
01/04/2021	Adolygiad o waith Marcio a Chymedroli*	Tach '20	01/04/2021	DR1	Tystysgrifau TGAU a Lefel 1/Lefel 2
06/04/2021	Codau Manyleb	2021	05/04/2021	Codau Manyleb - **i'w casglu trwy Sharepoint**	Tystysgrifau TGAU, Safon UG a Safon Uwch, Lefel 1/Lefel 2 a Thystysgrif Her Sgiliau CBC
21/04/2021	Cofrestriadau yn ôl Grŵp Blwyddyn*	Meh '21	20/04/2021	Cofrestriadau yn ôl Grŵp Blwyddyn	Tystysgrifau TGAU, Safon UG a Safon Uwch, Lefel 1/Lefel 2 a Thystysgrif Her Sgiliau CBC
23/04/2021	Data ardystio a chofrestru chwarterol*	Ch1 2021	01/01/2021 tan 31/03/2021	Data Chwarterol Cymwysterau Galwedigaethol	Cymwysterau galwedigaethol
08/06/2021	Adolygiad o waith Marcio a Chymedroli - Terfynol*	Ion '21	04/06/2021	DR1	TGAU, Tystysgrif Her Sgiliau CBC
Gorff 21 tan Awst 21	Canlyniadau rhagweledig a gwirioneddol - **Cyfnewid Data**. Yn gymwys i CBAC yn unig.	Meh '21	Gorff 21 tan Awst 21	Templedi Cyfnewid Data	Tystysgrifau TGAU, Safon UG a Safon Uwch, Lefel 1/Lefel 2 a Thystysgrif Her Sgiliau CBC

Amserlen Adrodd ar Gymwysterau 2020/21

DS mae rhesi gyda seren yn darparu data ar gyfer ystadegau swyddogol. Mae graddliwio glas yn dangos casgliadau ChG (VQ).

Dyddiad cofnodi	Templed / disgrifiad	Cyfres arholiadau	Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno data	Cyfeirnod y templed	Cymwysterau
23/07/2021	Data ardystio a chofrestru chwarterol*	C2 2021	01/04/2021 tan 30/06/2021	Data Chwarterol Cymwysterau Galwedigaethol	Cymwysterau galwedigaethol
28/07/2021	Apeliadau - Terfynol*	Tach '20	27/07/2021	Apeliadau	Tystysgrifau TGAU, Prosiect a Lefel 1/Lefel 2
12/08/2021	Data dyfarnu – Cyfnewid ar lefer dysgwr*	Tach '20, Ion '21, Meh '21	05/08/2021	Data dyfarnu	Safon UG, Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau Uwch
13/08/2021	Papurau wedi'u Haddasu*	Tach '20, Ion '21, Meh '21	12/08/2021	Papurau wedi'u Haddasu	TGAU, Safon UG a Safon Uwch
19/08/2021	Data dyfarnu – Cyfnewid ar lefer dysgwr*	Tach '20, Ion '21, Meh '21	12/08/2021	Data dyfarnu	TGAU, a Thystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol/Sylfaen
07/09/2021	Adolygiad o waith Marcio a Chymedroli*	Meh '21	03/09/2021	DR1	Tystysgrifau TGAU, Safon UG a Safon Uwch, Lefel 1/Lefel 2, AEA a Thystysgrif Her Sgiliau CBC
28/09/2021	Apeliadau - Terfynol*	Ion '21	24/09/2021	Apeliadau	TGAU, Tystysgrif Her Sgiliau CBC
30/09/2021	Nifer yr Atgyfeiriadau (a brosesir y tu allan i Drefniadau Mynediad Ar-lein)	Tach '20, Ion '21, Meh '21	29/09/2021	Atgyfeiriadau	TGAU, Safon UG a Safon Uwch

Amserlen Adrodd ar Gymwysterau 2020/21

DS mae rhesi gyda seren yn darparu data ar gyfer ystadegau swyddogol. Mae graddliwio glas yn dangos casgliadau ChG (VQ).

Dyddiad cofnodi	Templed / disgrifiad	Cyfres arholiadau	Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno data	Cyfeirnod y templed	Cymwysterau
05/10/2021	Adolygiad o waith Marcio a Chymedroli*	Meh '21	01/10/2021	DR1	Tystysgrifau TGAU, Safon UG a Safon Uwch, Lefel 1/Lefel 2, AEA a Thystysgrif Her Sgiliau CBC
11/10/2021	Ystyriaeth Arbennig*	Tach '20, Ion '21, Meh '21	01/10/2021	Ystyriaeth Arbennig	TGAU, Safon UG a Safon Uwch
07/10/2021	Marcio Ar-lein a Thraddodiadol*	Tach '20, Ion '21, Meh '21	06/10/2021	Marcio Ar-lein a Thraddodiadol	TGAU, Safon UG, Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau CBC
07/10/2021	E-Asesu	Tach '20, Ion '21, Meh '21	06/10/2021	E-Asesu	TGAU, Safon UG, Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau CBC
11/10/2021	Cofrestriadau, Cofrestriadau Hwyr a Dyfarniadau - Terfynol*	Meh '21	06/10/2021	Cofrestriadau, Cofrestriadau Hwyr a Dyfarniadau	Tystysgrifau TGAU, Safon UG a Safon Uwch, Lefel 1/Lefel 2 a Thystysgrif Her Sgiliau CBC
14/10/2021	Nifer yr ymgeiswyr sy'n sefyll arholiadau*	Tach '20, Ion '21, Meh '21	13/10/2021	Nifer yr ymgeiswyr sy'n sefyll arholiadau	TGAU, Safon UG a Safon Uwch
22/10/2021	Data ardystio a chofrestru chwarterol*	Ch3 2021	01/07/2021 tan 30/09/2021	Data Chwarterol Cymwysterau Galwedigaethol	Cymwysterau galwedigaethol

Amserlen Adrodd ar Gymwysterau 2020/21

DS mae rhesi gyda seren yn darparu data ar gyfer ystadegau swyddogol. Mae graddliwio glas yn dangos casgliadau ChG (VQ).

Dyddiad cofnodi	Templed / disgrifiad	Cyfres arholiadau	Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno data	Cyfeirnod y templed	Cymwysterau
04/11/2021	Cofrestriadau yn ôl Grŵp Blwyddyn*	Tach '21	02/11/2021	Cofrestriadau yn ôl Grŵp Blwyddyn	Tystysgrifau TGAU a Lefel 1/Lefel 2
16/11/2021	Adolygiad o waith Marcio a Chymedroli - Terfynol*	Meh '21	12/11/2021	DR1	Tystysgrifau TGAU, Safon UG a Safon Uwch, Lefel 1/Lefel 2, AEA a Thystysgrif Her Sgiliau CBC
17/11/2021	Adolygiad o waith Marcio a Chymedroli - Newidiadau gradd o ddau neu fwy	Tach '20, Ion '21, Meh '21	12/11/2021	DR2	Tystysgrifau TGAU, Safon UG a Safon Uwch, Lefel 1/Lefel 2, AEA a Thystysgrif Her Sgiliau CBC
18/11/2021	Camymddwyn - Canolfannau ac Ymgeiswyr*	Tach '20, Ion '21, Meh '21	16/11/2021	Camymddwyn	TGAU, Safon UG, Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau CBC

Canllawiau ar gyfer cyflwyno
Dylid cyflwyno data ar gyfer y casgliad hwn i ni yn unol â'r llinellau amser a nodir yn ein Hamserlen Gofnodi uchod. Er enghraifft, rhaid cyflwyno data terfynol ar Apeliadau ar gyfer cyfres Tachwedd 2020 ar gyfer Tystysgrifau TGAU, Prosiect a Lefel 1/Lefel 2 erbyn 28 Gorffennaf 2021, gyda'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno data ar 27 Gorffennaf 2021.

Rhaid cyflwyno data gan ddefnyddio'r templedi perthnasol yr ydym wedi'u rhestru yn yr Amserlen Gofnodi. Mae canllawiau ar ddefnyddio'r templedi hyn i'w gweld ym maes casglu data gwefan Cymwysterau yng Nghymru (QiW).

Cysylltiadau
Ar gyfer yr holl ymholiadau sy'n ymwneud â'r broses casglu data, diwygiadau i ddata a ddarparwyd yn flaenorol, neu ar gyfer canllawiau cyffredinol, cysylltwch â'n Pennaeth Ymchwil ac Ystadegau. Rydym yn croesawu adborth ar faich darparu'r data hwn, i ddarparu adborth, cysylltwch â'n Pennaeth Ymchwil ac Ystadegau:

Pennaeth Ymchwil ac Ystadegau
Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2
Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
01633 373 222

E-bost: **ystadegau@cymwysteraucymru.org**

Ar gyfer pob ymholiad sy'n ymwneud â'n trefniadau llywodraethu data, cysylltwch â'n Swyddog Diogelu Data:

Swyddog Diogelu Data CC Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2
Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
01633 373 222

E-bost: **dpo@qualificationswales.org**